| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Ebrill 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Twristiaeth, Hamdden a'r Ifanc/ Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Ffordd o Fyw Egnïol** |
| **Teitl:** | **Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Sir Ddinbych** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Diben yr adroddiad hwn yw amlygu copi drafft Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, a gyflwynwyd yn ddiweddar, a'r cynllun gweithredu i'r Aelodau. Mae'r Cynllun Gweithredu (Atodiad 1) yn dangos sut yr ydym yn bwriadu darparu cyfleoedd Chwarae i blant Sir Ddinbych. Petaech yn dymuno derbyn copi o'r ddogfen asesu 100 tudalen cysylltwch â Rheolwr Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol y Cyngor ar 01824 712710.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Y rheswm dros lunio'r adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ynglŷn ag Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Sir Ddinbych.

Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi dyletswydd statudol i Awdurdodau Lleol asesu a chadarnhau digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardal.

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cyhoeddi rheoliadau yn Hydref 2012 yn gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru gwblhau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a datblygu cynlluniau gweithredu i ddatrys unrhyw ddiffyg darpariaeth.

Dyddiad cyflwyno'r asesiad i LlC oedd 31 Mawrth 2013 ac mae drafft o'r asesiad wedi'i anfon o Sir Ddinbych i sicrhau ein bod yn cadw at y dyddiadau cyflwyno.

Bydd fersiwn derfynol yn cael ei anfon ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwblhau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae bob 3 blynedd ar ôl yr asesiad cyntaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Aelodau yn nodi a darparu sylwadau ar gynnwys yr adroddiad a'r cynllun gweithredu, a chefnogi'r ymroddiad i Ddatblygiad Chwarae yn Sir Ddinbych.

## 4. Manylion am yr Adroddiad.

Comisiynwyd adolygiad Chwarae yn Sir Ddinbych gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn 2011 i sefydlu gweledigaeth cyffredinol ac i ganfod ble y gosodir y cyfrifoldeb am ddatblygiad strategol Chwarae yn yr awdurdod.

Roedd argymhellion yr adolygiad yn awgrymu mai cartref strategol Chwarae yw Gwasanaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden. Mae'r Gwasanaeth hwn hefyd yn cynnwys Tîm Pobl Ifanc Egnïol, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluol a Chanolfannau Plant Integredig. Bydd gosod Chwarae yn y gwasanaeth hwn yn darparu cyswllt di-dor i uno gwasanaethau sy'n gweithio tuag at ddatblygiad plant a phobl ifanc.

Felly, mae Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn amserol yn natblygiad chwarae yn yr Awdurdod a bydd yn cael ei ddefnyddio fel offer i gynllunio'n strategol a chydlynu darpariaeth i'r dyfodol.

Nid yw cwmpas y Mesur wedi'i gyfyngu i ddarpariaeth chwarae benodol a gyda staff ond mae'n cynnwys amser, lle a rhyddid sydd gan blant i chwarae.

Mae'r pecyn a gafwyd gan LIC yn gofyn i awdurdodau lleol asesu'r meysydd canlynol yn unigol.

Mater A – Poblogaeth
Mater B – Darparu ar gyfer anghenion amrywiol
Mater C – Lle sydd ar gael i blant chwarae
Mater D – Darpariaeth gyda goruchwyliaeth
Mater E – Cost Darpariaeth Chwarae
Mater F – Mynediad at le/darpariaeth
Mater G – Cadarnhau a Datblygu Gweithlu Chwarae
Mater H – Cyswllt a rhan cymuned
Mater I – Chwarae o fewn y polisi a gweithrediad perthnasol

Er mwyn gwneud hyn mewn dull effeithiol mae angen cryn dipyn o wybodaeth gan wasanaethau eraill a sefydliadau partner. Ymgynghorwyd yn helaeth gyda'r partneriaid mewnol ac allanol canlynol.

**Mewnol**
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluol, Canolfannau Plant Integredig, Gwasanaethau Cynllunio, Trafnidiaeth, Cefn Gwlad, Tai, Addysg, Gwasanaethau Ieuenctid, Amgylchedd, Celfyddydau a Diwylliant ac Aelod Arweiniol Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden.

**Allanol**
Chwarae Gogledd Ddwyrain Cymru, Cymdeithas Maes Chwarae Antur y Rhyl, Cymunedau yn Gyntaf a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Barnardo's VIVA, Llyfrgell Tegan Toy, Ysgolion Lleol, Meithrinfeydd Dydd, URDD, Menter Iaith, Mentrau Awtistiaeth, Tîm Hawliau Lles, Swyddog Datblygiad yr Henoed, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Canolfan Grefft Rhuthun, 'Marsh Tracks', Castell Bodelwyddan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Sefydlwyd Gweithgor yn cynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid mewnol ac allanol. Roedd y Grŵp yn cyfarfod yn fisol rhwng Tachwedd a Mawrth 2013.

Casglwyd gwybodaeth gyda

- holiaduron (staff, rhieni a phlant)
- grwpiau ffocws
- arsylwi gweithgareddau chwarae mewn sesiynau strwythuredig a meysydd chwarae penodol
- archwiliad bwrdd gwaith gwybodaeth
- gwybodaeth a gafwyd gan Wasanaethau eraill yn y Cyngor
- cyfarfodydd gyda swyddogion/sefydliadau

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf i Grŵp Hawl Bore Oes, Grŵp Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc a Grŵp Swyddog Arweiniol Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden.

Mae themâu/blaenoriaethau allweddol sy'n codi o'r asesiad ac sydd angen mynd i'r afael a hwynt ym mlwyddyn 1 wedi'u cynnwys yn nhempled y cynllun gweithredu sydd wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a chânt eu crynhoi isod:

- Asesiad pellach o ddarpariaeth gwagle agored ac ymrwymiad y gymuned mewn mentrau chwarae
- Hyrwyddo a marchnata buddiannau chwarae a hygyrchedd chwarae
- Sicrhau bod mynediad agored i ddarpariaeth chwarae yn Sir Ddinbych yn ddarpariaeth reoledig ac yn glynu wrth safonau'r AGGCC.
- Datblygu cynllun hyfforddiant gydag asiantaethau statudol ac anstatudol i sicrhau bod amrywiaeth cynhwysfawr o hyfforddiant ar gael i ehangu sgiliau'r gweithlu chwarae.
- Gyda dynesiad partneriaeth sefydlu cyfrifoldeb statudol chwarae yn y blaenoriaethau corfforaethol a'r Cynllun MAWR.

Mae themâu/blaenoriaethau allweddol sydd angen mynd i'r afael a hwy yn 2014 a thu hwnt i hynny wedi'u cynnwys yn nhempled y cynllun gweithredu ac yn cael eu crynhoi isod:

- Ehangu'r ddarpariaeth i fynediad chwarae agored ledled Sir Ddinbych gan gynnwys ardaloedd gwledig
- Sicrhau bod darpariaeth chwarae yn gyraeddadwy ac yn darparu ymarferion cynhwysfawr ar gyfer plant gydag anghenion ychwanegol
- Sefydlu tîm datblygu gweithlu chwarae (yn amodol ar gyllid allanol) fydd yn ychwanegu at gyfleoedd chwarae presennol Sir Ddinbych.

**Rheoli Perfformiad**

Bydd cynnydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro i ddechrau gan y Gweithgor Chwarae ac yn cael ei gofnodi drwy Grŵp Creu Sir Ddinbych Egnïol a Chynllun Busnes Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden. Bydd yr adolygiad cynnydd cyntaf ym mis Gorffennaf 2013.

**5. Beth fydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a sicrhau y medrent fyw mor annibynnol ag y bo modd:- Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod cyfleoedd chwarae o safon uchel i bob plentyn yn gallu cyfrannu at liniaru effeithiau negyddol tlodi ar fywydau plant ac yn gymorth i adeiladu gwydnwch.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Darparodd LlC £20,000 i ariannu'r broses asesu a chynhyrchu Cynllun Gweithredu.

Mae LlC yn gofyn i Amserlen 1 y Cynllun Gweithredu nodi gweithredoedd 'heb gost' y gellid eu gweithredu yn ystod y 12 mis nesaf gyda'r cyllid sy'n bodoli eisoes a gan ddefnyddio amser swyddogion presennol.

Er mwyn datblygu cyfleoedd chwarae Sir Ddinbych ymhellach tu hwnt i 2014, efallai y bydd angen mwy o adnoddau ac mae LlC wedi gofyn bod costau cyllid ychwanegol datblygiad hir dymor chwarae yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r asesiad.

**7. Beth yw prif gasgliadau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.**

Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru. Amcan Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yw hyrwyddo cynhwysiant a gwella mynediad cyfleoedd chwarae ar gyfer plant ymyleiddiol, arwahanol ac anabl.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae copi drafft o Asesiad Digonolrwydd cyfleoedd chwarae wedi'i anfon at y Gweithgor a phob adran sydd wedi'u rhestru uchod yn Adran 4 (Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion perthnasol).

**Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd costau cwblhau gweithredoedd Blwyddyn 1 yn cael eu cynnwys yn y cyllid presennol. Dim ond gyda grant priodol y gellid cwblhau'r blynyddoedd canlynol.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes risgiau i lefel bresennol cyfleoedd chwarae yn Sir Ddinbych a bydd y rhain yn parhau i'w datblygu drwy ddarpariaeth bresennol y gwasanaeth.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Erthygl 6.3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:** Rheolwr Ffordd o Fyw Egnïol Ffôn: 01824 712728